



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Polisi Ymyrryd Addysg Bellach

## Canllawiau

Dyddiad cyhoeddi: Mai 2017

## Polisi Ymyrryd Addysg Bellach

<b>Cynulleidfa</b>	Sefydliadau addysg bellach, Colegau Cymru, a phartïon eraill sydd â diddordeb yn y sector addysg bellach yng Nghymru.
<b>Trosolwg</b>	Amlinellu dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phryderon difrifol a nodwyd mewn sefydliadau addysg bellach, pryd y gall fod angen ymyrryd a sut y bydd yr ymyrraeth honno'n gweithredu mewn egwyddor.
<b>Camau i'w cymryd</b>	Dim – dogfen gwybodaeth.
<b>Gwybodaeth bellach</b>	Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:  Tîm polisi ÔI-16 Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Tŷ'r Afon Ffordd Bedwas Bedwas Caerffili CF83 8WT e-bost: <a href="mailto:mike.shore@wales.gsi.gov.uk">mike.shore@wales.gsi.gov.uk</a>

# **Cynnwys**

<b>Cyd-destun</b>	<b>1</b>
<b>Egwyddorion a Diben y Polisi</b>	<b>1</b>
<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
<b>Y pwerau i ymyrryd</b>	<b>3</b>
<b>Y Llwybr i Ymyrryd</b>	<b>4</b>
<b>Cam A: Trafod a Nodi diffygion</b>	<b>4</b>
<b>Cam B: Cefnogaeth a newid</b>	<b>6</b>
<b>Cam C: 'Bwriad i ymyrryd' Llywodraeth Cymru</b>	<b>6</b>
<b>Cam D: Yr Hawl i Apelio</b>	<b>7</b>
<b>Cam E: Ymyrryd</b>	<b>7</b>
<b>Ymyrryd ar unwaith</b>	<b>8</b>
<b>Cadw Cydbwysedd</b>	<b>8</b>
<b>Diagram Y Llwybr i Ymyrryd</b>	<b>10</b>

## **Polisi Ymyrryd Addysg Bellach**

*Mae'r papur hwn yn amlinellu dull cyffredinol Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â phryderon difrifol a nodwyd mewn sefydliadau addysg bellach, pryd y gall fod angen ymyrryd a sut y bydd yr ymyrraeth honno'n gweithredu mewn egwyddor.*

### **Cyd-destun**

1. Mae'n ymwneud â Gweinidogion Cymru yn arfer pwerau ymyrryd mewn addysg bellach o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (DABU 1992) sy'n berthnasol i sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru yn y sector addysg bellach fel y diffinnir gan y Ddeddf hon. Nid yw'n berthnasol i unrhyw ddarparwyr eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.
2. Mae'n amlinellu dull gweithredu a phroses Llywodraeth Cymru o reoli ymyrraeth mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru. Mae'r polisi presennol yn canolbwyntio'n benodol ar bryd y gall fod angen ymyrryd a sut y bydd yr ymyrraeth honno'n gweithredu mewn egwyddor. Fel arfer, yn yr achosion mwyaf difrifol o berfformiad gwael yn unig yr ystyrir ymyrryd, pan fo diffyg capasiti i wella yn amlwg a/neu pan fo risg difrifol i addysgu a hyfforddi yn dod yn amlwg.

### **Egwyddorion a Diben y Polisi**

3. Mae'r strategaeth a ganlyn yn disgrifio'r pwerau sydd ar gael i Weinidogion Cymru ymyrryd pan nodir problemau difrifol o ran sut y mae sefydliadau addysg bellach yn gweithredu yng Nghymru, ac yn amlinellu'r dull gweithredu a'r broses sy'n ymwneud ag ystyried a ddylid defnyddio pwerau ymyrryd ai peidio.
4. Mae polisiâu Llywodraeth Cymru wedi bod yn pwysleisio'n gyson bwysigrwydd ethos o wella ansawdd yn barhaus, ac yn benodol nodi pwysigrwydd arwain a rheoli yn effeithiol ar lefel sefydliadol a phartneriaeth. Bwriad y ddogfen hon yw cefnogi'r sail resymegol honno. Mae'r broses ymyrryd yn un o nifer o fesurau cyfredol sy'n gysylltiedig â'i gilydd a ddefnyddir i geisio gwella ansawdd yn barhaus. Mae sicrhau ansawdd, archwilio a monitro cyflwr ariannol yn elfennau perthnasol i'r strategaeth hon.
5. Y diben yw rhoi manylion yr amgylchiadau lle bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu i amddiffyn buddiannau dysgwyr, gwarchod addysg dysgwyr presennol a chynnal darpariaeth leol ymatebol o ansawdd uchel i'r dyfodol. Bydd yr egwyddorion canlynol yn tanategu gweithrediad y broses ymyrryd hon:

- bydd perfformiad sefydliadol yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan Lywodraeth Cymru er mwyn nodi meysydd o bryder, gyda thrafodaethau agored ar unrhyw gamau unioni sydd i'w cymryd;
  - bydd lefel yr ymyrraeth yn gymesur â'r risg i ddysgwyr ac arian cyhoeddus;
  - bydd y corff llywodraethu, Pennaeth y sefydliad dan sylw a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar y camau gweithredu, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl;
  - bydd y sefydliad fel arfer yn cael cyfnod priodol i wella;
  - bydd Gweinidogion Cymru yn arfer eu pwerau ymyrryd os nad oes dewis arall.
6. Mae'r dull o weithredu ymyrraeth wedi'i amlinellu mewn fframwaith o brosesau yn hytrach na chyfres o weithdrefnau. Y rheswm dros hyn yw oherwydd ei bod yn hanfodol cadw elfen o ddisgresiwn wrth reoli ymyrraeth; rhaid ystyried yr amgylchiadau fesul achos.

## Cefndir

7. Cafodd Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 (Deddf 2014) Gydsyniad Brenhinol ar 27 Ionawr 2014. Diben darpariaethau'r Ddeddf oedd rhoi rhagor o annibyniaeth i sefydliadau addysg bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen sicrhau cydbwysedd rhwng y cynnydd yn yr annibyniaeth a ddarperir gan Ddeddf 2014 a'r angen i ddiogelu arian cyhoeddus, budd y cyhoedd, a dysgwyr.

Bydd sefydliadau addysg bellach yn parhau i fod yn atebol am y defnydd o arian cyhoeddus, ac yn parhau'n destun craffu trylwyr gan Lywodraeth Cymru ac Estyn<sup>1</sup> er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn elwa ar fuddsoddiad cyhoeddus.

8. Bydd sefydliadau addysg bellach yn parhau'n ddarostyngedig i:
- *Y llythyr dyrannu cyllid Grant blynyddol* – sy'n amlinellu'r telerau ac amodau y mae'n rhaid eu bodloni i fod yn gymwys am arian, a'r hyn fydd yn arwain at yr arian yn cael ei dynnu yn ôl.
  - *Y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd*, sy'n cynnwys monitro deilliannau dysgwyr yn erbyn targedau Llywodraeth Cymru, a'r gofynion ar gyfer hunanasesiad blynyddol.
  - *Arolygiadau Estyn* ac ymweliadau arolygwyr cyswllt.
  - *Y Memorandwm Ariannol* – mae'n gosod gofyniad ar y sefydliad i baratoi strategaeth ariannol sy'n tanategu'r Cynllun Sefydliadol.

---

<sup>1</sup> Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru sy'n arolygu ansawdd a safonau darparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

- *Cod ymarfer Archwilio Llywodraeth Cymru*, sy'n gosod gofynion gorfodol sy'n cysylltu'n ôl i amodau'r arian a'r Memorandwm Ariannol.
  - *Monitro archwilio a chyflwr ariannol*.
9. Mae adran 37 o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ddatblygu cynlluniau i asesu perfformiad sefydliadau sy'n darparu addysg ôl-16 ac i ystyried yr asesiadau hyn wrth benderfynu ar lefel yr arian i'w ddarparu.
  10. Yn ogystal â hyn, o dan adran 54 o DABU 1992, gall Gweinidogion Cymru ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu sefydliadau yn y sector addysg bellach roi'r cyfryw wybodaeth iddynt fel sy'n ofynnol er mwyn i Weinidogion Cymru arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.
  11. Ystyrir mai arian ac ariannu yw'r meysydd hollbwysig a allai effeithio ar y ffordd y mae sefydliad yn gweithredu o ddydd i ddydd, ond drwy fonitro meysydd eraill megis ansawdd ac ehangder y ddarpariaeth, mae modd cael rhybudd cynnar o faterion sy'n codi. Dylai'r fframwaith perfformiad presennol, gan gynnwys archwilio, sicrhau ansawdd a chynllunio strategol, nodi materion cyn bod angen ymyrryd.
  12. Canlyniad posibl o nodi dirywiad neu fethiant sefydliadol yn gynnwys y gallai Gweinidogion Cymru gynnig cymorth i sefydliadau dros y tymor byr.
  13. Fel mater o drefn, mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso rhagolygon a datganiadau ariannol blynyddol colegau a chaiff staff y llywodraeth ymweld â choleg er mwyn deall yn well y sefyllfa ariannol i ddarparu sicrwydd i Weinidogion. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn adolygu adroddiadau archwilio mewnol ac allanol blynyddol colegau ochr yn ochr ag adroddiad y Clerc i nodi unrhyw faterion o ran rheoli risg, rheoli neu lywodraethu o fewn sefydliad. Os yw'n ofynnol, mae modd ymweld â choleg i asesu'r trefniadau rheoli mewnol.

## Y pwerau i ymyrryd

14. Caiff Gweinidogion Cymru ymyrryd yn y ffordd y caiff sefydliad addysg bellach ei gynnal os ydynt yn fodlon bod unrhyw un o'r amodau a restrir yn adran 57 o DABU 1992 wedi'u bodloni.  
Yr amodau hyn yw:
  - bod gweithgarwch y sefydliad wedi'i gamweinyddu, neu'n cael ei gamweinyddu, gan ei gorff llywodraethu;
  - bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi methu â chyflawni unrhyw ddyletswydd a orfodwyd arno gan neu at ddibenion unrhyw Ddeddf neu unrhyw Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
  - bod corff llywodraethu'r sefydliad wedi gweithredu neu'n bwriadu gweithredu'n afresymol wrth arfer unrhyw bŵer sydd wedi'i roi, neu wrth ymgymryd ag unrhyw ddyletswydd sydd wedi'i osod gan neu dan unrhyw Ddeddf neu unrhyw Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

- bod perfformiad y sefydliad gryn dipyn yn is nag y gallai fod o dan yr holl amgylchiadau y disgwylir yn rhesymol iddo berfformio ynddynt, neu os yw'n methu â rhoi safon dderbyniol o addysg neu hyfforddiant neu'n debygol o fethu â gwneud hynny.
15. Mae gan Weinidogion Cymru y pwerau i ymyrryd yn y ffyrdd canlynol:
- cael gwared ar unrhyw un o'r llywodraethwyr, neu bob un ohonynt;
  - penodi aelodau newydd i'r corff llywodraethu, os oes lleoedd gwag;
  - rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sy'n ymwneud â sut y mae'n arfer ei bwerau a chyflawni'i ddyletswyddau. Er enghraifft, gellir rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu:
    - wneud trefniadau i gydweithio â sefydliad addysg bellach neu ysgol arall;
    - dod i benderfyniad i ddiddymu'r sefydliad addysg bellach<sup>2</sup>.
16. Nid yw'r pŵer cyfarwyddo yn cynnwys pŵer i gyfarwyddo corff llywodraethu i ddiswyddo aelod o staff, ond caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu gynnal y gweithdrefnau perthnasol sy'n ymwneud ag ystyried diswyddo aelod o staff.
17. Rhaid i'r corff llywodraethu gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Weinidogion Cymru o dan adran 57 fel yr amlinellir ym mharagraff 15 uchod.
18. Ar wahân i adran 57 o DABU 1992, caiff Gweinidogion Cymru hefyd benderfynu gosod cyfyngiad ar arian, neu ei derfynu yn gysylltiedig â'r telerau ac amodau y caiff yr arian ei roi.

## Y Llwybr i Ymyrryd

19. Mae dull o ymyrryd fesul cam yn tanategu gweithrediad y polisi. Mae felly'n bwysig cael dealltwriaeth glir o sut y gwneir penderfyniadau i ymyrryd. Fel arfer, ar ôl proses hir o gefnogaeth a thrafod yn unig y bydd ymyrryd yn digwydd. Dyma'r camau:
- a. Trafod a nodi diffygion;
  - b. Cefnogaeth a newid;
  - c. Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi llythyr 'bwriad i ymyrryd'
  - d. Mae gan y sefydliad yr 'hawl i apelio';
  - e. Yr ymyrraeth yn dibynnu ar y canlyniad

## Cam A: Trafod a Nodi diffygion

20. Mae sefydliad addysg bellach, drwy ei uwch dîm rheoli a'i staff, yn gyfrifol am ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant y mae'n eu cynnig i ddysgwyr. Mae rôl y corff llywodraethu hefyd yn hanfodol gan ei fod yn gyfrifol am benderfynu ar

<sup>2</sup> Os bydd hyn yn digwydd, bydd y corff addysg bellach yn cael ei drin fel petai wedi dilyn y gweithdrefnau cyhoeddi ac ymgynghori a amlinellir yn adran 27 o DABU 1992 (fel yr amnewidiwyd gan adran 3 o'r Ddeddf newydd).

natur addysgol a chenhadaeth y sefydliad, yn ogystal â goruchwyllo'i weithgarwch. Gwneir hyn drwy sicrhau ansawdd a hunanasesu trwyadl, sydd yn ei dro yn arwain at welliant parhaus.

21. Mae'n hanfodol parhau i gynnal trafodaethau rhwng sefydliadau addysg bellach a Llywodraeth Cymru. Mae'r trafodaethau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru i drafod unrhyw bryderon â'r sefydliad wrth iddynt ddod i'r amlwg, ac yn galluogi'r sefydliad i ddangos tystiolaeth o welliant a bod unrhyw faterion yn cael eu rheoli a'u bod o dan reolaeth.
22. Yn y pen draw, y corff llywodraethu sy'n gyfrifol am sicrhau cyflwr ariannol da, codi ansawdd y ddarpariaeth drwy herio perfformiad gwael, a llwyddiant coleg o ran cyflawni ei genhadaeth.
23. Fel arfer, nodir pryderon gan:
  - Lywodraeth Cymru drwy fonitro deilliannau dysgwyr;
  - Estyn drwy'r broses arolygu; dyfarniadau safonau a/neu arwain a rheoli islaw lefel 'ddigonol' mewn unrhyw arolygiad neu ailariolygiad;
  - Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflwr ariannol a rheoli, a
  - Llywodraeth Cymru mewn perthynas â monitro iechyd a diogelwch darpariaeth dysgu seiliedig ar waith.
24. Pan fo pryderon wedi'u nodi, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r corff llywodraethu ac uwch reolwyr y sefydliad fynd i'r afael â'r sefyllfa. Bydd **Cynllun Gwella** yn cael ei lunio gan y sefydliad, a bydd Llywodraeth Cymru yn cytuno arno. Bydd disgwyl i'r sefydliad fodloni cerrig milltir y Cynllun o fewn amserlen benodol, sef 12 mis fel arfer.
25. Mewn achosion pan fo pryderon yn cael eu nodi drwy arolygiad Estyn, mae'n ofynnol i sefydliadau addysg bellach lunio cynllun gweithredu o fewn deufis o gyhoeddi'r adroddiadau. Rhaid i Estyn gymeradwyo'r cynllun gweithredu. Fel arfer, cynhelir yr ailariolygiad rhwng 12 – 18 mis o ddyddiad yr arolygiad gwreiddiol.
26. Os asesir bod sefydliad yng Nghategori D o dan weithdrefnau monitro cyflwr ariannol Llywodraeth Cymru, hy *"Mae sefyllfa ariannol y sefydliad yn wan ac nid yw'n cefnogi ei strategaeth ariannol na'r cynllun sefydliadol"*, yna bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad baratoi cynllun adfer. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r sefydliad gyflwyno cyfrifon rheoli ac adroddiad misol i'r corff llywodraethu yn nodi'r cynnydd yn erbyn y cynllun hwn, a chyflwyno copi o'r dogfennau hyn i'w swyddogion. Os na fydd unrhyw gynnydd cadarnhaol wedi'i wneud yn erbyn y cynllun adfer o fewn 12 mis, bydd camau ymyrryd yn cychwyn drwy gyhoeddi llythyr 'bwriad i ymyrryd' (paragraff 19 (c)).
27. Os nodir gwendid sylweddol yn nhrefniadau rheoli risg a llywodraethu'r coleg drwy ddatganiadau blynyddol addysg bellach neu 'ddigwyddiad adroddadwy' sy'n gysylltiedig â gofynion archwilio, byddai hyn yn arwain at lythyr 'bwriad i ymyrryd' yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru. Os yw'r farn archwilio yn amodol yna byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod y rheswm dros y



farn amodol â'r corff llywodraethu a'r uwch dîm rheoli i ddod i benderfyniad ar natur y farn amodol. Byddai canlyniad y trafodaethau hyn yn penderfynu a fyddai'r ymyrraeth yn digwydd ar unwaith, ee fel yr amlinellwyd ym mharagraff 39 isod mewn achosion lle profir y cafodd cronfeydd cyhoeddus eu camddefnyddio'n ddifrifol, neu lle bu twyll neu ddichell, neu os bu adfer neu gynlluniau gwella yn briodol.

28. Yn ogystal â hyn, pan fo arolygwyr yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE), neu eu cynrychiolwyr, yn nodi pryderon sy'n ymwneud â sefydliad ac yn cyhoeddi hysbysiadu gwella neu wahardd, rhybuddiad ffurfiol ac ati, bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Awdurdod neu'n ei orfodi i sicrhau na effeithir ar iechyd a diogelwch y dysgwyr.

## Cam B: Cefnogaeth a newid

29. Pan fo pryderon wedi'u nodi, bydd cymorth perthnasol a phriodol yn cael ei nodi i helpu'r sefydliad i wneud y gwelliannau angenrheidiol, i'r graddau y bydd hynny'n bosibl. Caiff hyn ei wneud fesul achos er mwyn manteisio ar wasanaethau a chyfleusterau eraill fel y cytunwyd rhwng y sefydliad a Llywodraeth Cymru. Pan fo pryderon ariannol, caiff Llywodraeth Cymru ddarparu arbenigedd a chanllawiau penodol i gynorthwyo'r sefydliad. Pan fo'n briodol, o ran materion ansawdd, bydd Llywodraeth Cymru a'r sefydliad yn trafod yn agos ag Estyn wrth weithredu'r gefnogaeth i wella.
30. Bydd 'cyfnod gwella' y cytunwyd arno, (pan fydd disgwyl i'r sefydliad fodloni cerrig milltir y Cynllun o fewn amserlen benodol, sef 12 mis fel arfer), ochr yn ochr â chynnig lefel briodol o gefnogaeth i uwch reolwyr y sefydliad, yn rhoi'r cyfle i nodi a datrys problemau o fewn cyfnod rhesymol fel y cytunwyd â'r corff llywodraethu, heb yr angen i Weinidogion Cymru ymyrryd. Mae'r sefydliad yn cadw'r rheolaeth dros ei ddyfodol, ac mae'r corff llywodraethu yn cadw'r cyfrifoldeb dros weithgarwch y sefydliad, bodloni eu cyfrifoldebau statudol a gwella perfformiad y sefydliad.

## Cam C: 'Bwriad i ymyrryd' Llywodraeth Cymru

31. Y disgwyliad yw y bydd mwyafrif y sefydliadau wedi mynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd erbyn diwedd y cyfnod 'gwella' a roddwyd i gyflawni'r **Cynllun Gwella**. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau eithriadol gall sefydliad fethu â dangos bod cynnydd yn cael ei wneud drwy beidio â chyrraedd y cerrig milltir penodol, neu drwy beidio â chael y capasiti a'r gallu i gyflawni ei **Gynllun Gwella**. Byddai hyn yn risg sylweddol i ddysgwyr ac arian cyhoeddus.
32. Pan nad yw'r sefydliad wedi bodloni'r cerrig milltir a nodwyd yn y **Cynllun Gwella** y cytunwyd arno, bydd y corff llywodraethu a Llywodraeth Cymru yn cytuno ar gamau gweithredu priodol lle y bo'n bosibl. (Er enghraifft, gallai'r deiliant gynnwys y sefydliad yn ceisio cydweithio neu uno yn ffurfiol; byddai hyn yn benderfyniad i'r sefydliad). Bydd y cyfnod pontio mewn achos o'r fath yn cael ei reoli gan y sefydliad drwy hysbysiad tymor byr y cytunwyd arno â

Llywodraeth Cymru. Bydd y cyfnod hwn ac unrhyw gamau gweithredu perthnasol yn cael eu harwain gan y corff llywodraethu, gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru.

33. Cyn arfer eu pwerau i ymyrryd, ac eithrio mewn achosion eithriadol pan ystyrir bod angen ymyrryd ar unwaith (fel y disgrifir ym mharagraff 39), bydd Gweinidogion Cymru yn ysgrifennu'n ffurfiol i'r corff llywodraethu yn rhoi gwybod am eu pryderon a nodi eu bod yn bwriadu ymyrryd drwy arfer eu pwerau statudol o dan adran 57(4) o DABU 1992.

Bydd yr hysbysiad yn amlinellu:

- y gofyniad i lunio cynllun gweithredu sy'n cynnwys amserlen realistig a'i roi ar waith i osgoi'r angen i ymyrryd;
- y sail resymegol dros y bwriad i arfer eu pwerau statudol o dan adran 57(5), gan gynnwys y rhesymau pam na ystyrir bod unrhyw gynlluniau blaenorol y sefydliad yn ddigonol;
- tystiolaeth gefnogol berthnasol.

## Cam D: Yr Hawl i Apelio

34. Bydd gan y corff llywodraethu yr hawl i apelio'r hysbysiad sy'n nodi'r 'bwriad i ymyrryd'. Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl ystyried ymateb y corff llywodraethu, yn dal i fwriadu bwrw ymlaen i ymyrryd, byddant yn nodi'r rhesymau yn ysgrifenedig ac yn caniatáu cyfle pellach i'r corff llywodraethu ymateb. Gall hyn fynd drwy o leiaf dau gylch yn ystod y cyfnod amser a bennwyd (hy cyfanswm o 30 diwrnod gwaith o ddyddiad yr hysbysiad).
35. O fewn 10 diwrnod gwaith i ddiwedd y cyfnod cyflwyno sylwadau, bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd iddynt ac yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu am eu penderfyniad.
36. Yr opsiwn a ffefrir gan Weinidogion Cymru fydd peidio ag arfer eu pwerau oni bai ei bod yn gwbl angenrheidiol, a phan na fu'n bosibl datrys y materion drwy weithio mewn partneriaeth â'r sefydliad. Fodd bynnag, y mwyaf difrifol yw'r risg gydnabyddedig i'r dysgwyr, y mwyaf cadarn y mae'n debygol y bydd yr ymyrraeth.

## Cam E: Ymyrryd

37. Fodd bynnag, er y rhagwelir mai dyma'r eithriad, gall fod adegau pan nad yw sefydliad wedi bodloni'r cerrig milltir a nodwyd yn y **Cynllun Gwella** y cytunwyd arno, ac na all Llywodraeth Cymru gytuno ar gamau gweithredu priodol â'r corff llywodraethu. Gallai hyn, er enghraifft, fod o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r corff llywodraethu yn darparu'r arweiniad angenrheidiol ar gyfer gweithredu. Pan fo hyn yn digwydd ac yr ystyrir bod pob dull arall posibl i roi newid ar waith wedi'i gymryd, caiff Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau statudol.

38. Pan ystyrir mai ymyrryd yw'r ffordd briodol o weithredu, mae'n debygol y bydd y sefydliad addysg bellach wedi dangos un neu ragor o'r nodweddion canlynol:
- cyflwr ariannol gwael neu wedi torri gofynion y Memorandwm Ariannol a bod rhywfaint o dystiolaeth, os o gwbl, fod ei gorff llywodraethu a/neu ei uwch dîm rheoli yn gallu sicrhau gwelliant o fewn cyfnod amser rhesymol;
  - dyfarniadau graddau safonau a/neu arwain a rheoli sydd islaw'r trothwy ansawdd yn ailrolygiad Estyn;
  - risg uniongyrchol a difrifol i iechyd a diogelwch y dysgwyr;
  - methiannau llywodraethu difrifol a systematig sy'n arwain at benderfyniadau diffygiol a/neu dorri offeryn ac erthyglau llywodraethu;
  - methu â mynd i'r afael ag argymhellion archwilio;
  - methiant sylweddol i gyflawni darpariaeth o ansawdd ddigonol a rhywfaint o dystiolaeth, os o gwbl, fod y corff llywodraethu a/neu'r uwch dîm rheoli yn gallu sicrhau gwelliant digonol o fewn cyfnod amser rhesymol.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn, ac mae wedi'i chynnwys i egluro yn unig.

## **Ymyrryd ar unwaith**

39. Mewn amgylchiadau eithriadol, pan fo risg uniongyrchol, difrifol ac eithriadol i ddysgwyr neu arian cyhoeddus, a bod angen gweithredu ar frys, gall Gweinidogion Cymru ddymuno ymyrryd gyda mwy o frys nag y byddai dull o ymyrryd fesul cam yn ei ganiatáu. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys:
- tystiolaeth o gam-drin cronfeydd cyhoeddus, twyll neu ddichell ddifrifol;
  - methiannau rheoli sy'n arwain at risg difrifol uniongyrchol i ddysgwyr;
  - digwyddiad adroddadwy sy'n gysylltiedig â thorri canllawiau iechyd a diogelwch difrifol;
  - torri'r Memorandwm Ariannol yn ddifrifol;
  - torri Erthyglau ac Offeryn Llywodraethu yn ddifrifol.
40. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ofynnol cynnal trafodaeth frys ac uniongyrchol â chorff llywodraethu ac uwch reolwyr y sefydliad i bennu cwmpas a natur unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol. Bydd unrhyw ymyrraeth yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol gan Weinidogion Cymru yn cael ei nodi mewn hysbysiad ffurfiol (gorchymyn o dan adran 57(4) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992), a bydd yn cynnwys y camau gweithredu sydd i'w cymryd ar unwaith.
41. Gall Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau ymyrryd statudol ar ôl dilyn y broses a amlinellir ym mharagraffau 37 – 39.

## **Cadw Cydbwysedd**

42. Mae amrywiaeth o fesurau diogelu eisoes ar waith i atal y defnydd mympwyol o unrhyw bwerau ymyrryd gan Weinidogion Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhaid i Weinidogion Cymru weithredu o fewn eu pwerau;
  - rhaid i swyddogion Llywodraeth Cymru gadw at god y gwasanaeth sifil a'i werthoedd craidd sef uniondeb, gonestrwydd, gwrthrychedd a didueddrwydd;
  - y gorfforaeth yw cyflogwr staff sefydliadau addysg bellach, ac mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried rhwymedigaethau'r gorfforaeth o dan ddeddfwriaeth cyflogaeth a chyfleoedd cyfartal wrth arfer y pŵer i roi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu weithredu gweithdrefnau wrth ystyried achos i ddiswyddo aelodau o staff.
43. Wrth ddatblygu'r polisi diddymu yn ystod y gwaith o lunio Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, ymgynghorodd Gweinidogion Cymru â'r sector gan sicrhau bod barn rhanddeiliaid yn cael ei hystyried, a bod prosesau priodol ar waith a bod ganddynt gefnogaeth y sector.
44. Gall cyrff llywodraethu herio'r penderfyniadau drwy ddilyn gweithdrefn gwyno Llywodraeth Cymru.  
<http://gov.wales/docs/caecd/publications/151027complaintscym.pdf>.
45. Gallai cyrff llywodraethu hefyd geisio Adolygiad Barnwrol o'r penderfyniad.

# Y Llwybr i Ymyrryd

## Cam A: Trafod a nodi diffygion;

Arolygiad Estyn Annigonol; deilliannau dysgwyr islaw'r safonau gofynnol; cyflwr ariannol a/neu reolaethau annigonol

## Cam B: Cefnogaeth a Newid: Cyfnod Cynllunio Gwelliannau

Y Coleg i lunio Cynlluniau Gwella a Gweithredu ac un ai LIC, Estyn neu HSE i gytuno arnynt

Cytuno ar y cyfnod amser a'r cerrig milltir ar gyfer Gwella

LIC i gynnig arbenigedd penodol / Cyfarwyddyd a / neu Gymorth Strategol Ychwanegol

Methu â bodloni cerrig milltir y cytunwyd arnynt

Mynd i'r afael â materion tangyflawni yn erbyn y Cynllun Gwella y cytunwyd arno o fewn yr amser y cytunwyd arno

Cytundeb gwirfoddol i Gydweithio neu Uno yn ffurfiol

Ail drafod y Cynllun

Os na wneir unrhyw gynnydd cadarnhaol o fewn 12 mis, bydd camau ymyrryd yn cychwyn

**Cam C: LIC yn 'bwriadu ymyrryd'** – cyhoeddi hysbysiad ffurfiol o ymyrraeth gan amlinellu:

- manylion y camau y maent yn bwriadu eu cymryd a'r amserlen;
- y sail resymegol dros y bwriad i arfer pwerau;
- tystiolaeth berthnasol.

## Cam D: Yr Hawl i Apelio

- Y cyfle i gyrff llywodraethu ymateb (cyfanswm o 30 diwrnod).
- Bydd LIC yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd ac yn rhoi gwybod i'r corff llywodraethu am ei phenderfyniad terfynol.

Rhoi stop ar y camau ymyrryd

## Cam E: Ymyrryd / ymyrryd ar unwaith

Gweinidogion Cymru yn arfer eu pwerau ymyrryd statudol drwy:

- Osod cyfyngiad ar yr arian, neu ei derfynu (mewn cysylltiad â thelerau ac amodau'r arian);
- Cael gwared ar rai o'r llywodraethwyr, neu bob un ohonynt;
- Penodi aelodau newydd i'r corff llywodraethu (os oes lleoedd gwag);
- Rhoi cyfarwyddyd i'r corff llywodraethu uno